



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ADRAN 2 - RHEOLAU'R CYNLLUN

Y GRANT CYNHYRCHU CYNALIADWY - RHEOLAU CYMHWYSEDD

Bod yn gymwys am Grant Cynhyrchu Cynaliadwy:

- Bydd o leiaf un aelod o'r busnes, yn unol â Chofnodion Cyswllt Ffermio a Llywodraeth Cymru, wedi bod ar gwrs 'Ffermio Cynaliadwy' a drefnir gan Cyswllt Ffermio.
- Ni ddylai'r busnes sy'n cyflwyno'r Datganiad o Ddiddordeb fod wedi ei ddewis ar gyfer Grant Prynu Eitemau o dan gyfnod 1 i 3 y Grant Prynu Eitemau.

Mae'n rhaid ichi hefyd:

- Byddwch wedi'ch cofrestru gyda Llywodraeth Cymru ac wedi cael Cyfeirnod Cwsmer (CRN).
- Byddwch wedi'ch cofrestru gydag RPW Ar-lein.
- Bod yn gynhyrchydd cynradd cynhyrchion amaethyddol.
- Os yn gwneud cais fel ffermwr organig, cael ardystiad gyda corff rheoli organig.

Os ydych yn gwneud cais fel grŵp:

- Bydd yn rhaid i pob ffermwr sy'n rhan o'r grŵp fodloni'r amodau uchod.
- Mae'n rhaid i'r grŵp gofrestru gyda Llywodraeth Cymru ac wedi cael Cyfeirnod Cwsmer (CRN).
- Mae'n rhaid cyflwyno'r Datganiad o Ddiddordeb o dan Gyfeirnod y Cwsmer fel a roddwyd i'r grŵp gan Lywodraeth Cymru.

SYLWADAU AR Y CYNLLUN

- Mae'n rhaid ichi fodloni gofynion Nodiadau Canllaw Technegol Tendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus, sydd ar gael yma <https://llyw.cymru/rhaglen-datblygu-gwledig-2014-2020-canllaw-technegol-tendro-cystadleuol-chaffael-cyhoeddus>, wrth gyflwyno datganiad o ddiddordeb, cais llawn neu gais am gyllid.
- Mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y Contract.
- Mae'n rhaid ichi gyflwyno eich hawliadau drwy eich cyfrif RPW Ar-lein erbyn y dyddiad a nodi'r yn eich llythyr i gynnig contract gyda'r holl dystiolaeth atodol i fod yn gymwys i gael eich ystyried am daliad.
- Mae'n rhaid i anfonebau atodol a thystiolaeth o daliadau gael eu cyflwyno erbyn y dyddiad sy'n cael ei nodi yn eich llythyr o gynnig am gontract i gefnogi eich hawliad drwy eich cyfrif Ar-lein Taliadau Gwledig Cymru neu drwy'r post.
- Mae'n rhaid i chi fodloni unrhyw ymrwymadau cyfreithiol a roddir dan gyfraith yr UE neu'r DU, gan gynnwys deddfwriaeth iechyd a lles anifeiliaid neu blanhigion.
- Mae'n rhaid i chi ddarparu Proffil Cyflewnwi yn cadarnhau pryd y byddwch yn cyflwyno hawliadau am daliad ar gyfer yr holl eitemau buddsoddi.
- Ni chewch waredu ar, trosglwyddo na gwerthu unrhyw gyfarpar a brynir gyda chymorth grant heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru, wrth gyflawni'r prosiect ac am bum mlynedd ar ôl y dyddiad cymeradwyo.
- Ni chewch newid prosiect, gan gynnwys lleoliad y gweithgarwch, heb gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru.
- Gydymffurfio â'r rheolau ar wariant cymwys.
- Peidiwch â dechrau'r gwaith nes eich bod wedi derbyn y contract Grant Prynu Eitemau.
- Mae'n rhaid i chi gadarnhau nad oes unrhyw rai o'r eitemau sy'n rhan o'r cais yn eitemau a brynwyd yn lle eitemau eraill o dan hawliad yswiriant.
- Mae'n rhaid i'r eitemau fodloni'r fanyleb ofynnol a ddisgrifir yn Atodiad A y Grant Prynu Eitemau.
- Ni chewch ddefnyddio eitemau sydd wedi'u prynu drwy Grant Prynu Eitemau ar gyfer gweithgareddau contractio amaethyddol.
- Mae cytundebau cyllid yn dderbyniol o dan yr FBG, cyn belled â bod gennych anfoneb gyda chyfeiriad eich busnes masnachu arni ar gyfer yr eitemau (ac nid y cwmni cyllid).
- Mae offer ail law yn gymwys ar gyfer Grant Prynu Eitemau ar yr amod ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch cyfredol, ei fod yn addas at y diben ac sydd ag o leiaf 5 mlynedd o ddisgwyliad oes yn weddill.

- Mae'n rhaid i chi gadarnhau nad ydych wedi gwneud cais am unrhyw gyllid cyhoeddus arall (boed hynny o ffynonellau'r Undeb Ewropeaidd neu'r Deyrnas Unedig).
- Rwy'n ymrwymo i fodloni, yn ôl yr angen, unrhyw rwymedigaethau mewn perthynas â sicrhau caniatâd cynllunio.
- Os ydych chi'n derbyn arian cyhoeddus arall o'r UE neu'r DU i gynorthwyo gyda chostau prosiect, byddant yn cael eu disgowntio yn erbyn y Grant Prynu Eitemau.
- Mae'n rhaid i chi gadw cofnodion sy'n gysylltiedig â'r cais am y grant hwn a chofnodion o'r hyn a hawliwyd gennych fel rhan o'r grant hwn, gan gynnwys yr holl anfonebau gwreiddiol a dogfennau cysylltiedig eraill, am o leiaf saith blynedd ar ôl y dyddiad cymeradwyo.
- Mae'n rhaid i chi ganiatáu i gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Comisiwn Archwilio a Llys Archwilwyr Ewrop arolygu'r prosiect. Os gofynnir, rhaid i chi roi gwybodaeth iddynt a/neu adael iddynt weld y dogfennau gwreiddiol sy'n ymwneud â'r prosiect.
- Rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd a roddir i'r prosiect gyfeirio at y cyfraniad a wnaed gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru at ei ariannu.
- Dylech fod yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd yn cadw'r hawl i gyhoeddi enw eich busnes neu gwmni, swm y grant a roddwyd i chi a chrynodeb o'ch prosiect.

ADRAN 3 - TELERAU AC AMODAU'R GRANT CYNHYRCHU CYNALIADWY

1. Diffiniadau

Mae'r diffiniadau canlynol yn berthnasol yn y contract hwn:

“Cynhyrchydd cynradd cynhyrchion amaethyddol” – unigolyn, partneriaeth neu gwmni sy'n gweithredu busnes sy'n cynhyrchu cynhyrchion amaethyddol Atodiad 1. Mae hyn yn cynnwys y sectorau ffermio canlynol:

- âr
- eidion
- cynnyrch llaeth
- geifr
- garddwriaeth (gan gynnwys hydroponeg a dyfrboneg)
- moch
- dofednod
- defaid
- cadw gwenyn

Ystyr “**Buddiolwr**” a “**Buddiolwyr**” yw gweithredwr, corff neu gwmni, boed yn gyhoeddus neu'n breifat, sy'n gyfrifol am ddechrau, neu ddechrau a rhoi gweithrediadau ar waith, neu dderbyn cymorth o dan y Contract;

Ystyr “**Eitem**” yw darn o gyfarpar cyfalaf neu beiriant sydd wedi'i gynnwys ar y Rhestr o Eitemau Cyfalaf Cymwys a ddiffinnir ymlaen llaw ac a nodir yn Atodiad A y Grant Prynu Eitemau.

“**Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020**” yw'r system a ddefnyddir gan Weinidogion Cymru i gyflenwi gweithgareddau dan y rheoliadau sy'n cefnogi cefn gwlad a chymunedau gwledig, gan annog rheoli amaethyddiaeth a'r amgylchedd yn gynaliadwy;

Golyga “**prosiect**” y gyfres gyfan o Waith Cyfalaf sy'n rhan o bob Contract Grant Prynu Eitemau.

2. Cynnig y Contract

2.1 Bydd Gweinidogion Cymru'n gwneud Taliadau'r Grant Busnes i Ffermydd yn destun yr amodau canlynol bob amser:

- i) Rhaid derbyn y grant a ddyfernir drwy'r botwm glas RPW Ar-lein o fewn 30 diwrnod i'r dyddiad ar y llythyr cynnig Contract.
- ii) Mae'r dyfarniad yn cael ei wneud ar sail y datganiadau a wnaed gennych chi neu'ch cynrychiolwyr ar y Datganiad o Ddiddordeb ac mewn gohebiaeth ddilynol:

- a. Cynllun Busnes 5 mlynedd
- b. Datganiad Meini Prawf Craidd
- c. Cynllun Effeithlonrwydd Maethynnau
- d. Cynllun Arbed Dŵr
- e. 3 dyfynbris ar gyfer pob eitem a ddewisir ar y datganiadau o ddiddordeb
- f. 3 Blynedd o Gyfrifon Ardystiedig
- g. Caniatadau cynllunio

iii) ni ddylai'r buddiolwr na pherson sy'n gweithredu ar ran buddiolwyr ddechrau unrhyw waith ar y prosiect cyn derbyn cynnig am Contract.

iv) Ni chewch newid prosiect, gan gynnwys, ble yn berthnasol, leoliad y gweithgarwch, heb gymeradwyaeth ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru.

3. Hawliadau a Thaliadau

3.1 Gwneud Taliadau'r Grant Busnes i Ffermydd

3.1.1 Bydd Gweinidogion Cymru'n gwneud Taliadau'r Grant Prynu Eitemau yn destun yr amodau canlynol bob amser:

- i) Mae'r buddiolwr wedi derbyn contract Grant Prynu Eitemau o fewn 30 niwrnod i gael cynnig contract.
- ii) Mae'n rhaid i bob eitem o fuddsoddiad sydd wedi'u rhestru yn y tabl yn Adran 1 y Contract gael eu llenwi a'u hawlio.
- iii) Bydd yn rhaid i bob un o'r eitemau buddsoddi gael eu hawlio yn unol â'r proffil cyflenwi.
- iv) Gellir hawlio'r eitemau buddsoddi yn unigol. Cyn cyflwyno cais am eitem buddsoddi, mae'n rhaid i'r buddiolwr sicrhau bod yr eitem wedi'i brynu, ei osod a'i gwblhau.
- v) bod y Buddiolwr wedi cwblhau a chyflwyno hawliad am Grant Prynu Eitemau er mwyn parhau'n gymwys ar gyfer, a derbyn, taliad.
- vi) Y buddiolwr sy'n gyfrifol am gyflwyno bob anfoneb a thystiolaeth o daliad, ar gyfer pob eitem buddsoddi sy'n cael ei hawlio, er mwyn i hawliad gael ei ystyried yn ddilys.
- vii) Mae'n rhaid i anfonebau arddangos y gair 'manyleb' ar y ddogfen a'i chynnwys yn y canlynol:
 - rhif adnabod unigryw
 - enw a chyfeiriad y cwmni a manylion y cyswllt
 - enw a chyfeiriad y cwmni anfonebu
 - disgrifiad clir o'r hyn yr ydych yn talu amdano
 - dyddiad darparu'r nwyddau neu'r gwasanaeth (dyddiad cyflenwi)
 - dyddiad yr anfoneb
 - y symiau sy'n cael eu codi

- y TAW, os yw'n gymwys
- y cyfanswm sy'n ddyledus

- viii) Dylid rhoi tystiolaeth o daliad gyda chyfriflenni banc. Os nad yw gwerth y trafodiad yn cyd-fynd â gwerth yr anfoneb, bydd angen dadansoddiad o'r taliad cyfan gydag anfonebau atodol. Os yn gwneud taliadau gyda siec, yna bydd angen sganio'r siec ysgrifenedig, cyn ei gyflwyno i'r cyflenwr, yn ogystal â'r gyfriflen banc.
- ix) Y Buddiolwr fydd yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn cwblhau a chyflwyno ei hawliad Grant Prynu Eitemau erbyn y dyddiad a nodir yn Rheolau'r Cynllun.
- x) Mae'n rhaid i bob eitem sy'n cael ei hawlio fod wedi ei brynu wedi dyddiad derbyn y Contract.
- xi) Pan fo'r buddiolwr yn grŵp, cyfrifoldeb y grŵp yw sicrhau bod yr holl amodau uchod wedi'u bodloni.
- xii) Ble y bo angen tystiolaeth o gydsyniad cynllunio terfynol, ni fydd yr hawliad gwaith cyfalaf ar gyfer yr eitem fuddsoddi ar gael i'r buddiolwr tan i dystiolaeth foddhaol o gydsyniad o'r fath gael ei gyflwyno gan i buddiolwr i Lywodraeth Cymru.
- xiii) nad yw'r Buddiolwr wedi derbyn taliad o unrhyw ffynhonnell arall mewn perthynas ag unrhyw daliad sy'n ddyledus neu daliad sy'n gysylltiedig â'r Contract.
- xiv) nad yw'r Buddiolwr wedi ffugio'r amodau sydd angen eu bodloni er mwyn derbyn taliadau.
- xv) nad yw'r Buddiolwr wedi gwneud gosodiad neu ddatganiad ffug neu gamarweiniol, na rhoi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol i Weinidogion Cymru.
- xvi) Cyfrifir taliadau'r Grant Busnes i Ffermydd yn unol ag Atodlen y Contract, cyn belled â bod yr holl eitemau sydd wedi'u rhestru wedi'u prynu i'r fanyleb gywir. Caiff taliadau eu gwneud yn dilyn dilysu'r hawliad yn llwyddiannus a dogfennau ategol yn dilyn gwiriadau gweinyddu.
- xvii) gallai hawliad y Buddiolwr gael ei ddewis ar gyfer ei archwilio neu ar gyfer gwiriadau gweinyddol cyn neu wedi'r taliad gael ei wneud. Bydd holl fanylion yn nghais y buddiolwr, manylion yn yr hawliad a'r datganiadau a wnaethpwyd wrth gyflwyno'r cais a'ch hawliad i gyd yn cael eu archwilio. dyddiad prynu'r eitemau buddsoddi, i bwy y rhoddwyd yr anfoneb neu'r anfonebau a manylebau'r buddsoddiadau (ble yn briodol).
- xviii) Bydd holl Daliadau'r Grant Prynu Eitemau ond yn daladwy mewn sterling gan Weinidogion Cymru drwy'r system BACS.

3.2 Cymorth Gwladwriaethol

3.2.1 Nid yw Erthyglau 107, 108 nac 109 y TFEU yn berthnasol i'r grantiau a ddarperir o dan y cynllun hwn os cawsant eu gwneud yn unol â Rheoliad (UE) rhif 1305/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor (Rheoliadau Datblygu Gwledig), ac o fewn cwmpas Erthygl 42 y TFEU.

Mae Erthygl 42 y TFEU yn ymwneud â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu cynnyrch amaethyddol cynradd.

3.2.2 Bydd grantiau a ddarperir dan y cynllun hwn yn cydymffurfio â'r cyfraddau ymyrraeth uchaf a'r terfynau cymorth a nodir yn Atodiad II y Rheoliadau Datblygu Gwledig.

3.3 Hawliadau anghywir a chosbau

- 3.3.1 Mae gan y Buddiolwr gyfrifoldeb i sicrhau bod yr hawliad a gyflwynir yn rhifyddol gywir a'i fod am eitemau buddsoddi sydd wedi'u rhestru yn y tabl yn Adran 1 y Contract yn unig.
- 3.3.2 Bydd yn rhaid i pob eitem sy'n cael ei hawlio fod wedi eu brynu neu'r gwaith wedi'i ddechrau wedi derbyn y contract.
- 3.3.3 Os yw'r Buddiolwr wedi prynu eitemau sydd â'r math anghywir o fanyleb; neu sydd wedi prynu eitemau cyn cyflwyno'r cais; neu sydd heb brynu'r holl eitemau a restrir yn y cais, yna bydd yr hawliad yn anghywir. Byddwn yn gwrthod eich hawliad cyfan ac os oes grant wedi'i dalu ichi, byddwn yn mynnu'ch bod yn ei dalu yn ôl.

3.4 Troseddau

- 3.4.1 Rheoliad 13 o Reoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014 (Rhif Mae 3222 (Cy.327)) yn pennu troseddau a chosbau mewn perthynas ag elfennau penodol o gyllid datblygu gwledig. Mae'r Rheoliad hwnnw a'r troseddau hynny yn berthnasol i'r Cynllun Grant Prynu Eitemau. Mae enghreifftiau o droseddau'n cynnwys darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol, yn fwriadol neu'n fyrbwyll, mewn perthynas â chyllid datblygu gwledig; rhwystro arolygydd neu swyddog; a gwrthod darparu gwybodaeth ar gais.

4. Newidiadau'r Contract

4.1 Newidiadau i Delerau ac Amodau'r Contract

- 4.1.1 Efallai y bydd angen i Weinidogion Cymru wneud newidiadau i'r Contract hwn i ystyried y cyngor gwyddonol diweddaraf, addasu rheolau'r cynllun i ystyried unrhyw newid yn **Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020**, neu adolygu cyfraddau talu, ymysg pethau eraill.
- 4.1.2 Bydd Gweinidogion Cymru'n hysbysebu unrhyw newidiadau yn y cylchlythyr Gwlad, ar wefan Llywodraeth Cymru www.llyw.cymru a lle bo angen byddant yn cysylltu â Buddiolwyr trwy gyfrwng RPW ar-lein.
- 4.1.3 Mae'n ofynnol i'r Buddiolwr gadw at unrhyw newidiadau a wneir i'r Contract hwn pe bai unrhyw amrywiad neu addasiad statudol i'r Rheoliadau ac yn dilyn hysbysiad gan Weinidogion Cymru.

4.2 Terfynu

4.2.1 Terfynu gan Weinidogion Cymru

4.2.1.1 Gall Gweinidogion Cymru derfynu'r Contract hwn dan yr amgylchiadau canlynol:

- i) ble mae Gweinidogion Cymru'n arfer eu pwerau yn unol â Chymalau 4.1
- ii) fel rhan o ddisgresiwn absoliwt **Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020** neu gyfnod unrhyw Raglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru ddilynol;
- iii) diwedd rhaglen bresennol **Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020** neu unrhyw gyfnod dilynol o Raglen Cymunedau Gwledig;

- iv) Lle bo newidiadau i **Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020** neu gyfnod unrhyw Raglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru ddilynol;
- v) Lle mae newidiadau i ddarpariaethau cyllidebol Gweinidogion Cymru'n gwneud newidiadau i weithrediad Cynllun Grant Prynu Eitemau yn angenrheidiol.

4.2.2 Terfynu gan y Buddiolwr

4.2.2.1 Os digwydd i'r Buddiolwr derfynu'r Contract hwn cyn i dymor yr ymrwymiad ddod i ben, yn amodol ar ddarpariaethau Cymal (Trosglwyddo neu Werthu Tir dan Gontract), gall Gweinidogion Cymru, yn unol â'r Rheoliadau, gymryd camau i adennill taliadau a wnaed i'r Buddiolwr dan y Contract gyda llog.

Gall Llywodraeth Cymru ddod â'r Contract hwn i ben ar unrhyw adeg wedi rhoi 14 diwrnod gwaith o rybudd ysgrifenedig i'r buddiolwr. Pan roddir rhybudd, bydd y cytundeb yn cael ei derfynu wedi i gyfnod y rhybudd ddod i ben.

4.2.2.2. Lle bo unrhyw gymhorthdal wedi cael ei dalu, gellir adennill drwy ofyn amdano swm sy'n cyfateb i'r cyfan o'r taliad hwnnw neu unrhyw ran ohono:

- i) Mynediad i safle'r prosiect neu unrhyw gofnodion i swyddogion a awdurdodwyd gan roddwr y grant neu'r sawl y cyfeirir atynt ym mharagraff 5.
- ii) Ble canfyddir bod unrhyw wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd yn anwir neu'n gamarweiniol mewn rhyw fodd sylweddol;
- iii) Ble bo'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd yn fwriadol neu drwy esgeulustod yn gyfrifol am afreoleidd-dra sylweddol wrth gyflawni'r cytundeb a thrwy dwyll, llygredd neu unrhyw weithred neu anweithred anghyfreithlon arall o eiddo'r ymgeisydd, wedi peri i Lywodraeth Cymru a/neu yr Undeb Ewropeaidd ddiodef colled ariannol;
- iv) Ble bo'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd wedi methu, o fewn y cyfnod a bennwyd gan roddwr y grant, â darparu unrhyw wybodaeth y gofynnodd Gweinidogion Cymru amdani;
- v) There has been a substantial change in the nature, scale, costs or timing of the project;
- vi) Bod gan Weinidogion Cymru sail resymol i gredu nad oedd neu nad yw y prosiect yn cael ei gyflawni'n briodol gyda'r bwriad o fodloni amcanion y prosiect yn unol â'r hyn a nodwyd yn y cais;
- vii) Lle bo oedi afresymol wedi digwydd neu yn digwydd gyda'r prosiect neu lle bo'n annhebygol y bydd yn cael ei gwblhau erbyn y dyddiad cwblhau a nodwyd yn y llythyr cymeradwyo grant a'r Proffil Cyflawni y cytunwyd arno;
- viii) Lle bo gwiriad mewnol gan roddwr y grant, Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, archwilwyr a benodwyd gan y Comisiwn Archwilio, y Comisiwn Ewropeaidd neu'r Llys Archwilwyr yn canfod amgylchiadau lle bo dad-ymrwymiad grant llawn neu rannol yn briodol neu os bydd y Comisiwn mewn rhyw fodd arall yn mynnu bod cymhorthdal Cronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig yn cael ei atal, ei leihau, ei ganslo neu ei adennill;
- ix) Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cymorth yn torri rheolau Cymorth Gwladwriaethol y Gymuned Ewropeaidd neu os bydd Awdurdodau'r Gymuned

Ewropeaidd o'r farn na ddylasid talu unrhyw grant a dalwyd; neu os bydd penderfyniad yn Llys Cyfiawnder Ewrop yn golygu bod yn rhaid atal, lleihau, canslo neu adennill taliad;

- x) yn ystod ei oes economaidd, bydd y Prosiect yn cael ei newid yn sylweddol, a ddiffinnir fel cael ei ddefnyddio at ddibenion heblaw y rhai a enwir yn y cais neu os bydd ei berchennog yn newid. Yr oes economaidd yw'r cyfnod hyd at daliad olaf y grant neu gyflawni'r targedau olaf o blith y rhai a enwir yn y Proffil Taliadau a'r Proffil Targedau neu 5 mlynedd oddi ar ddyddiad gorffen y prosiect pa un bynnag sydd hwyraf;sydd wedi'i nodi yn y Proffil Cyflenwi neu 5 mlynedd o ddyddiad cwblhau'r prosiect p'un bynnag yw'r hwyraf;
- xi) within the period beginning on the date of this contract ~~letter~~ and during the economic lifetime of the Project any of the following events occur, of which the Welsh Ministers must be informed as soon as possible:
- (i) Bod y buddiolwr yn peidio â bod yn is-gwmni i unrhyw gwmni y mae'n is-gwmni iddo ar ddyddiad y llythyr hwn neu fod yr ymgeisydd yn mynd yn is-gwmni i unrhyw gwmni nad yw'n is-gwmni iddo ar ddyddiad y llythyr hwn. Dehonglir y gair "is-gwmni" yn unol â'r diffiniad yn Adran 736 Deddf Cwmnïau 1985 fel y'i hamnewidiwyd gan Adran 144(1) Deddf Cwmnïau 1989;
- (ii) bod y buddiolwr yn destun cynnig ar gyfer trefniant gwirfoddol neu y dygwyd deiseb ar gyfer Gorchymyn Gweinyddu neu ddeiseb ar gyfer Gorchymyn Dirwyn i Ben yn ei erbyn neu ei fod yn gwneud penderfyniad i ddirwyn i ben neu yn gwneud unrhyw gyfansoddiad, trefniant, trawsgludiad neu aseiniad er budd ei gredydwr neu yn honni gwneud hynny, neu os penodir derbynnydd neu unrhyw unigolyn arall mewn perthynas â'i ymgymeriad neu unrhyw eiddo y mae'n berchen arno.

Pan ddaw y cytundeb i ben, bydd y buddiolwr:

- a) ad-dalu cyn pen 28 diwrnod gwaith y cyfan neu ran o unrhyw grant a dalwyd nad yw ar ddyddiad terfynu'r cytundeb wedi cael ei wario at ddibenion cymeradwy
- b) cydymffurfio â darpariaethau unrhyw hawliad gan Weinidogion Cymru.

5. Archwiliadau a Chadw Cofnodion

5.1 Bydd Gweinidogion Cymru neu eu hasiantau'n cynnal archwiliadau a allant fod yn ddirybudd neu o fewn cyfnod cyfyngedig iawn o rybudd.

5.2 Bydd y Buddiolwr:

- i) caniatáu i swyddogion awdurdodedig Gweinidogion Cymru neu Berson Awdurdodedig wirio yr holl fanylion yn eich Datganiad o Ddiddordeb a'ch Contract; y manylion yn eich hawliad a'r datganiadau a wnaethoch wrth gyflwyno'r Datganiad o Ddiddordeb a'r hawliad. Bydd hyn yn cynnwys gwiriad, dyddiadau prynu'r cyfarpar, i bwy y rhoddwyd yr anfoneb neu'r anfonebau a manylebau'r offer a'r gwaith adeiladu (ble yn briodol) er mwyn sicrhau bod telerau'r Contract hwn wedi
- ii) yn rhoi pob cymorth rhesymol i Unigolyn Awdurdodedig mewn perthynas â'r Contract. Os bydd Unigolyn Awdurdodedig yn ystyried bod angen, bydd y Buddiolwr yn mynd gyda'r

- 5.3 Rhaid i'r Buddiolwr sicrhau bod unrhyw wybodaeth, llyfrau cofnodion, cyfrifon, derbynebaw neu ddata arall ar gael i Weinidogion Cymru, gan gynnwys mynediad at ddata cyfrifiadur y gall yr Unigolyn Awdurdodedig ofyn yn rhesymol amdano at ddibenion dilysu cydymffurfiaeth â thelerau'r Contract.
- 5.4 Bydd y Buddiolwr yn darparu'r wybodaeth honno o fewn y cyfnod a bennir gan Weinidogion Cymru a rhaid iddo ganiatáu i'r Unigolyn Awdurdodedig gymryd copïau neu ddyfyniadau o unrhyw rai o'r dogfennau neu gofnodion hynny.
- 5.5 Bydd y Buddiolwr yn cadw pob anfoneb, cyfrifon neu ddogfennau eraill sy'n ymwneud ag ymrwymadau ar ôl taliad olaf y cynllun, gan gynnwys copïau o ddogfennau gwreiddiol am o leiaf saith blynedd.
- 5.6 Bydd y Buddiolwr yn cydsynio i Weinidogion Cymru gysylltu ag awdurdodau perthnasol eraill i geisio datgelu gwybodaeth yn unol ag unrhyw ymholiadau y gall Gweinidogion Cymru fod am eu gwneud i ddilysu gwybodaeth a ddarparwyd gan y Buddiolwr.
- 5.7 Bydd y Buddiolwr, ar gais, yn darparu manylion unrhyw daliadau a dderbyniwyd neu sy'n ddyledus gan unrhyw gorff y llywodraeth neu gorff cyhoeddus, neu bolisi yswiriant, mewn perthynas â'r eitemau cyfalaf i Weinidogion Cymru.
- 5.8 Bydd y Buddiolwr yn hysbysu Gweinidogion Cymru ar unwaith os bydd yn derbyn unrhyw gynnig o gyllid neu gytundeb mewn perthynas â rheoli unrhyw ran o'r eitemau cyfalaf gan unrhyw unigolyn neu gorff ar wahân i Weinidogion Cymru.
- 5.9 Bydd y Buddiolwr yn caniatáu i swyddogion Gweinidogion Cymru, Unigolyn Awdurdodedig neu contractwr trydydd parti fynd at yr eitemau cyfalaf at ddibenion monitro a gwerthuso canlyniadau'r cynllun ar unrhyw adeg yn ystod tymor y Contract.
- 5.10 Bydd y Buddiolwr yn caniatáu i swyddogion Gweinidogion Cymru, Unigolyn Awdurdodedig neu contractwr trydydd parti fynd at yr eitemau cyfalaf at ddibenion monitro a gwerthuso canlyniadau'r cynllun ar unrhyw adeg yn ystod tymor y Contract.
- 5.11 Bydd y Buddiolwr a Gweinidogion Cymru yn cytuno fod unrhyw ymddygiad sydd yn arwain at wrthodiad i adael archwiliad gymryd lle, methiant i gyd-weithio a'r cais i archwilio, rhwystro i adael Unigolyn Awdurdodedig I archwilio neu fethiant i roi cymorth rhesymol yn cael ei drin fel tor contract yn gytunol a Chymal 6, a fydd yn arwain yn y lleihad, dileu neu adennill taliadau o dan y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy.

6. Cosbau a Thramgwyddau

- 6.1 Gall Gweinidogion Cymru osod cosbau, a allant arwain at wrthod talu, naill ai'n rhannol neu'n llawn, gan gynnwys terfynu'r contract, am:
- i) toriadau i'r Contract (gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i Reolau'r Cynllun a nodir yn Adran 2 ac Archwiliadau a Chadw Cofnodion a nodir yng Nghymal 5);
 - ii) Anghysondebau a thorri amodau'r Grant Prynu Eitemau.

6.2 Torri Amodau'r Cynllun

- 6.2.1 Gall Gweinidogion Cymru ganfod gwariant anghymwys trwy archwiliadau gweinyddol, delweddu lloeren neu ar archwiliadau fferm a byddant yn hysbysu'r Buddiolwr yn ysgrifenedig.
- 6.2.2 Bydd Gweinidogion Cymru'n hysbysu'r Buddiolwr yn ystod y cam talu am fanylion unrhyw ostyngiad neu waharddiad iddo.
- 6.2.3 Bydd Gweinidogion Cymru'n gwrthod y cyllid a hawlir, neu'n tynnu'r cyllid yn ôl, os nad yw'r meini prawf cymhwyster yn cael eu bodloni.
- 6.2.4 Bydd Gweinidogion Cymru'n gwrthod y cyllid a hawlir, neu'n tynnu'r cyllid yn ôl yn llawn neu'n rhannol, os nad yw'r Buddiolwr yn cydymffurfio â'r ymrwymadau sydd wedi'u cynnwys yn y Contract.
- 6.2.5 Bydd Gweinidogion Cymru'n gwrthod y cyllid a hawlir, neu'n tynnu'r cyllid yn ôl yn llawn, lle y gwelir bod y Buddiolwr wedi darparu tystiolaeth ffug er mwyn derbyn y cyllid, neu heb ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol oherwydd esgeulustod.
- 6.2.6 Os bydd y Buddiolwr yn gwneud datganiad ffug neu heb hysbysu Gweinidogion Cymru am newid perthnasol, gellid ei erlyn.

6.3 Adennill Taliadau

- 6.3.1 Mae'n ofynnol mewn amgylchiadau penodol i Weinidogion Cymru adennill taliadau'n llawn neu'n rhannol a gallant arfer y pwerau hyn yn unol â Rheoliad 10 o Reoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014 OS Rhif 3222 (W. 327) fel y'i diwygiwyd.

6.4 Gweithredu Llog

- 6.4.1 Os digwydd i Weinidogion Cymru fod angen adennill unrhyw swm a dalwyd, bydd y Buddiolwr yn ad-dalu'r cyfanswm dan sylw gyda llog, ble y bo'n berthnasol.
- 6.4.2 Bydd Gweinidogion Cymru'n cyfrifo llog ar gyfer y cyfnod rhwng y dyddiad cau ar gyfer taliad gan y Buddiolwr, a nodir yn y gorchymyn adennill, a naill ai ddyddiad yr ad-daliad neu'r didyniad, ac ni fydd am gyfnod hwy na 60 diwrnod.
- 6.4.3 Bydd Gweinidogion Cymru'n cyfrifo'r gyfradd llog i'w gweithredu yn unol â graddfa LIBOR ar y diwrnod hwnnw, gydag ychwanegiad o 1%.

7. Gweithdrefn Apelio

- 7.1 Os digwydd bod y Buddiolwr am herio penderfyniad gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'i gontract neu daliad Grant Prynu Eitemau, gall wneud cais ysgrifenedig o fewn 60 diwrnod i ddyddiad y llythyr yn ei hysbysu am benderfyniad Gweinidogion Cymru. Mae'n bosibl cael manylion y broses apelio dau gam gan Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru.
- 7.2 Os yw Buddiolwr yn anfodlon â'r ffordd mae ei achos wedi cael ei drin, gellir cwyno dan bolisi a gweithdrefn gwynion Llywodraeth Cymru. Gellir cael cyngor o Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid Taliadau Cymru.

8. Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data: Hysbysiad Preifatrwydd

- 8.1. Mae'r hysbysiad hwn yn rhoi gwybod i'r Buddiolwr sut bydd Gweinidogion Cymru'n defnyddio'r wybodaeth a gedwir ac a gesglir mewn perthynas â'r Contract hwn neu unrhyw ddogfen arall sy'n cael ei defnyddio, ei chreu neu ei chasglu mewn perthynas â'r Contract hwn.

Mae hefyd yn egluro'r ffordd y bydd Llywodraeth Cymru yn prosesu a defnyddio'ch data personol a'ch hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Mae manylion llawn i'w cael yn

<https://llyw.cymru/rhaglen-datblygu-gwledig-2014-i-2020-hysbysiad-preifatrwydd>

9. Dehongli

- 9.1 Rhoddwyd penawdau ar y paragraffau er mwyn ei gwneud yn gyfleus i gyfeirio atynt ac ni fyddant mewn unrhyw ffordd yn effeithio ar gystrawen ystyr neu effaith unrhyw beth a gynhwysir yn y Contract hwn nac yn llywodraethu hawliau a rhwymedigaethau'r partion.

10. Llyffetheirio Disgresiwn

- 10.1 Ni fydd dim yn y Contract hwn yn llyffetheirio neu gyfyngu Gweinidogion Cymru fel arall wrth iddynt arfer eu swyddogaethau o dan y Rheoliadau.
- 10.2 Mewn achos o wrthdaro rhwng telerau'r Contract a'r Rheoliadau ac i'r graddau bod unrhyw rai o gymalau'r Contract hwn yn anghymharus neu'n anghyson â'r Rheoliadau, mae'r Partion yn cytuno mai darpariaethau'r Rheoliadau fydd yn berthnasol.

11. Atebolrwydd Cyhoeddus ac Yswiriant Trydydd Parti

- 11.1 Yn ogystal ag unrhyw hawl mynediad cyfreithiol presennol sydd gan unrhyw unigolyn i Dir y Contract, lle mae'r Buddiolwr wedi cytuno fel rhan o'r Contract y gall y cyhoedd gael mynediad dros Dir y Contract, mae'r Buddiolwr hwnnw yn ymgymryd i feddu ar bolisi digonol o atebolrwydd cyhoeddus ac yswiriant trydydd parti gydol tymor Contract Grant Prynu Eitemau.